# Ymgynghori â phlant a phobl ifanc:

Pwyllgorau rheoli unedau cyfeirio disgyblion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Deall y cefndir

Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac maen nhw'n gyfrifol am drefnu addysg yn eu hardaloedd. Er enghraifft, rhaid i awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r nifer briodol o ysgolion yn eu hardal, fel bod yr holl blant a phobl ifanc sy'n byw yno yn gallu cael addysg.

Mae uned cyfeirio disgyblion yn rhywle lle mae plentyn neu rywun ifanc yn gallu cael addysg os nad yw'n gallu mynd i'r ysgol. Er enghraifft, efallai bydd angen i blentyn neu rywun ifanc fynd i uned cyfeirio disgyblion os yw wedi cael ei wahardd o'r ysgol.

Pennaeth ysgol sy'n gyfrifol am ysgol. 'Athro neu athrawes â gofal' sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion.

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ysgolion gael corff llywodraethu, sef grŵp o bobl sy'n helpu pennaeth yr ysgol i redeg yr ysgol. Maen nhw'n rhoi cyngor, yn delio â chwynion ac yn helpu pennaeth yr ysgol i wneud rhai penderfyniadau. Yn lle corff llywodraethu, mae gan y rhan fwyaf o unedau cyfeirio disgyblion bwyllgor rheoli i wneud yr un gwaith. Ond nid oes cyfraith ar gael sy'n gorfodi pob uned cyfeirio disgyblion i gael pwyllgor rheoli.

Pan fydd dim pwyllgor rheoli i helpu i redeg yr uned cyfeirio disgyblion, neu os nad yw'r pwyllgor rheoli'n gweithio'n iawn, mae hyn yn gallu achosi problemau. Rydym ni eisiau newid y gyfraith fel bod pob uned cyfeirio disgyblion yn gorfod cael pwyllgor rheoli, gyda rheolau am sut dylai pwyllgorau rheoli weithio a beth mae disgwyl iddyn nhw ei wneud.

## Pwy fydd aelodau'r pwyllgor rheoli?

Bydd y gyfraith newydd yn dweud bod yn rhaid i'r bobl hyn fod yn aelodau o'r pwyllgorau rheoli:

- **rhieni/gofalwyr**
- **pobl sy'n gweithio mewn unedau cyfeirio disgyblion, gan gynnwys yr athro neu athrawes â gofal**
- **pobl sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol**
- **aelodau'r gymuned, fel arfer athrawon o ysgolion eraill**
- **pobl sy'n helpu'r uned cyfeirio disgyblion, er enghraifft drwy roi cyngor neu amser, neu drwy roi arian**.

Bydd plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r unedau cyfeirio disgyblion ddim yn aelodau o'r pwyllgor rheoli. Y rheswm dros hyn yw efallai fydd llawer ohonyn nhw ddim yn yr uned cyfeirio disgyblion am hir iawn cyn iddyn nhw fynd yn ôl i'r ysgol. Fyddai hyn ddim yn rhoi digon o amser iddyn nhw arfer bod yn aelod o'r pwyllgor. Rydym yn awgrymu bod pwyllgor rheoli'n gofyn i'r plant a'r bobl ifanc beth sydd ar eu meddwl pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

## Pa waith bydd y pwyllgorau rheoli'n ei wneud?

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn gwneud rhywfaint o'r gwaith o redeg uned cyfeirio disgyblion. Bydd y gyfraith newydd yn dweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi'r tasgau gwaith hyn i'r pwyllgor rheoli:

- **rhedeg yr uned cyfeirio disgyblion**
- **delio ag unrhyw gwynion am beth sy'n cael ei addysgu yn yr uned cyfeirio disgyblion**
- **bod yn gyfrifol am ddelio ag ymddygiad gwael**
- **mesur pa mor dda mae'r athrawon yn yr uned cyfeirio disgyblion yn addysgu**.

Fydd y pwyllgor rheoli ddim yn gwneud yr holl waith y mae'r awdurdod lleol yn ei wneud ar hyn o bryd. Er enghraifft, yr awdurdod lleol fydd yn dal yn gyfrifol am reoli sut mae arian yn cael ei wario yn yr uned cyfeirio disgyblion ac am gyflogi athrawon newydd neu aelodau staff eraill.

## Sut mae hyn yn effeithio arnaf fi?

Drwy newid y gyfraith, mae Llywodraeth Cymru am i'r holl unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru gael pwyllgor rheoli, yn yr un ffordd ag y mae gan bob ysgol gorff llywodraethu. Os wyt ti'n ddysgwr mewn uned cyfeirio disgyblion, efallai bydd rhai o'r rheolau newydd yn effeithio arnat ti'n uniongyrchol. Dyna pam ein bod yn gofyn i blant a phobl ifanc beth yw eu barn am rai o'r rheolau newydd fydd yn cael eu gwneud.

**© Hawlfraint y Goron Ebrill 2014**
**WG21125**

## Cwestiynau

**1.** Wyt ti'n meddwl y dylai rhieni/gofalwyr fod yn aelodau o'r pwyllgor rheoli?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Ddim yn siŵr | |

**Sylwadau**

| |
|---|
| Rho dy sylwadau yma: |

## Cwestiynau

**2.** Wyt ti'n cytuno y dylai'r pwyllgor rheoli fod yn gyfrifol am ddelio ag ymddygiad gwael?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Ddim yn siŵr | |

**Sylwadau**

Rho dy sylwadau yma:

## Cwestiynau

**3.** Wyt ti’n cytuno y dylai’r pwyllgor rheoli ddelio ag unrhyw gwynion am beth sy’n cael ei addysgu yn yr uned cyfeirio disgyblion?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Ddim yn siŵr | |

**Sylwadau**

Rho dy sylwadau yma:

## Cwestiynau

**4.** Wyt ti'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylem feddwl amdano wrth wneud y rheolau hyn?

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Ddim yn siŵr | |

**Sylwadau**

Rho dy sylwadau yma:

**Anfonwch atebion at:**
Y Gangen Lles Disgyblion, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
**Neu anfonwch e-bost atom yn:** wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk